Cwrt Linden
Clos Ilex
Llanisien
Caerdydd
CF14 5DZ

Ffôn 029 2076 1861
Ffacs 029 2076 3163

www.hefcw.ac.uk

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Datganiad i'r wasg

Dyddiad: 25 Gorffennaf 2006

Teitl: Prifysgolion yn hwb i economi a chymdeithas Cymru

Mae ffigurau a gyhoeddir heddiw yn datgelu bod prifysgolion a cholegau yn gwneud hyd yn oed mwy i wella cystadleurwydd economi Cymru, ac yn cyfrannu at gymdeithas ac ansawdd bywyd.

Mae'r pumed adroddiad Arolwg *Addysg Uwch - Rhyngweithiad Busnes a'r Gymuned* (AU-RhBG) blynyddol, a gyhoeddir ar y cyd gan yr Adran Masnach a Diwydiant (DTI) a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr (HEFCE), ond a gydariennir gan gyrff cyllido addysg uwch Cymru a'r Alban, yn dangos gwelliant ar draws ystod eang o ddangosyddion o ran cyfraniad economaidd a chymdeithasol. Yng Nghymru, mae'r arolwg yn datgelu,:

- Rhwng 2002/03 a 2003/04, cyflawnodd SAUau yng Nghymru gynnydd o 10% mewn incwm o ymchwil gydweithredol sy'n cynnwys cyllid cyhoeddus a chyllid busnes, sy'n cyfrif am 9.9% o gyfanswm incwm y DU. Wrth gyflawni hyn, perfformiodd Cymru yn well na phump o'r naw rhanbarth RDA yn Lloegr.

- Er bod cyfanswm y contractau ymgynghoriaeth ymchwil wedi cwympo gan ryw 4%, cynyddodd cyfanswm yr incwm ohonynt gan 18% ac, yn ystod 2003/04, roedd Cymru yn cyfrif am fwy nag 11% o incwm y DU-gyfan o wasanaethau ymgynghori AU (tua £24m). Wrth gyflawni hyn, perfformiodd Cymru yn well na'r Alban, Gogledd Iwerddon a saith o'r naw rhanbarth RDA yn Lloegr.

- Bod Cymru yn cyfrif am fwy na 9.5% o'r cyllid i SAUau yn y DU o raglenni adnewyddu a datblygu yn ystod 2002/03 (£20.5m).

- Sefydlodd SAUau yng Nghymru 17 o gwmnïau deillio newydd a 4 cwmni cychwyn newydd gan staff, a oedd yn cyfrif am fwy na 12% o gyfanswm gweithgaredd deillio a chychwyn gan staff yn y DU ac a gyflawnodd bron i 7% o gyfanswm incwm y DU o werthu cyfranddaliadau mewn cwmnïau deillio prifysgolion. Amcangyfrifir bod y trosiant o'r holl gwmnïau deillio gweithredol yng Nghymru yn rhyw £25m, sy'n cyfrif am fwy na 5.5% o holl drosiant y DU.

- Cyflawnodd SAUau yng Nghymru gynnydd o 5% o ran nifer y graddedigion sy'n cychwyn busnes ac, yn 2003/04, roedd yn cyfrif am 14% o'r holl fusnesau a gychwynnwyd gan raddedigion yn y DU. Ar sail DU-eang, mae Cymru hefyd yn cyfrif am 17% o fusnesau a gychwynnwyd gan raddedigion sydd wedi goroesi am dair blynedd neu fwy, ac yn cyfrif am 10.5% o'r gyflogaeth a amcangyfrifir ym mhob cwmni gweithredol (FTE).

Wrth groesawu cyhoeddi'r adroddiad, dywedodd Rhodri Morgan, Prif Weinidog Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

"Mae'r arolwg yn tanlinellu sut mae modd defnyddio gwybodaeth ac arbenigedd prifysgolion Cymru er budd ehangach busnesau, yr economi a chymdeithas yn fwy cyffredinol, a hynny yng Nghymru a'r tu hwnt. Mae'r ffigurau'n dangos, ers 2000-01, bod ein sefydliadau addysg uwch wedi cynyddu'r incwm maent yn ei gynhyrchu o fentrau fel gwasanaethau ymgynghori a hyfforddiant i fusnesau yn sylweddol, gan ddyblu eu henillion weithiau yn ystod y pedair blynedd mae'r arolwg wedi cael ei gynnal. Mae hon yn duedd iach iawn i'r prifysgolion a'r colegau, ac i economi Cymru."

Mae'r arolwg yn amlygu amrywiaeth y mathau o fusnesau a mentrau cymdeithasol y mae AU yn eu helpu. Mae prifysgolion a cholegau'n gweithio i wella cynhyrchedd busnesau bach a mawr, a all fod yn marchnata'n fyd-eang, yn genedlaethol - neu'n cyfrannu at fenter rhanbarthau, dinasoedd neu gymdogaethau. Mae hefyd yn helpu gwasanaethau cyhoeddus, yn ogystal â mentrau cymdeithasol a sefydliadau di-elw, i wella ansawdd bywydau pobl yn ogystal â ffyniant cymunedau.

Am y tro cyntaf, mae'r arolwg hefyd yn dangos faint y mae SAUau yng Nghymru yn ei gyfrannu at ddiwylliant ehangach Cymru. Yn 2003/04, manteisiodd rhyw 230,000 o

unigolion ar fynediad am ddim i ddarlithoedd cyhoeddus, perfformiadau cerddorol, dawns, drama ac ati, arddangosfeydd mewn amgueddfeydd ac orielau celf prifysgolion, a digwyddiadau addysgiadol mewn amgueddfeydd. Mynychodd 287,000 o unigolion eraill ddigwyddiadau lle codwyd tâl.

Caiff data o'r adroddiad AU-RhBG nesaf ei ddefnyddio i lywio'n uniongyrchol dyraniad Cronfa Trydedd Genhadaeth CCAUC i sefydliadau yn ystod y tair blynedd nesaf.

Dywedodd yr Athro Syr Roger Williams, Cadeirydd CCAUC:

"Mae'r arolwg yn dangos y cyfraniad mawr y mae ein prifysgolion a cholegau yn ei wneud at gyfoeth a lles pobl Cymru, y cyfraniad uchaf yn y DU yn aml. Mae AU yng Nghymru yn cyfrif am 5% o gyfanswm AU y DU, felly mae'r ffaith bod 14% o'r holl fusnesau a gychwynnwyd gan raddedigion yn y DU wedi eu cychwyn yng Nghymru yn nodedig. Mae'r canlyniadau hyn yn dangos pwysigrwydd sector addysg uwch ffyniannus yng Nghymru i fusnesau a chymunedau ledled y wlad."

Ychydig o ddata dethol ar gyfer Cymru

	2000-01	**2001-02**	**2002-03**	**2003-04**
Incwm o ymgynghori (£M)	10	12	20	24
Incwm o ymchwil gydweithredol (£M)	23	39	49	54
Pwynt ymholi i SMEs (% o SAUau y DU)	92%	100%	100%	100%
Incwm adnewyddu (£M)	17	18	20	20
Incwm o wasanaethau sy'n ymwneud â chyfleusterau ac offer (£M)	2	1	6	7
SAUau sy'n cynnig cyrsiau pwrpasol ar safleoedd cwmnïau	46%	46%	54%	54%
SAUau sy'n cynnig dysgu o bell i fusnesau	62%	54%	85%	77%

Sylwer: troswyd yr holl incwm ariannol i brisiau 2003-04

Diwedd.

<u>Cysylltiadau yn y cyfryngau</u>

CCAUC

Emma Rączka, Rheolwr Cyfathrebu - 029 2068 2225.
Dale Hall, Pennaeth Cynllunio a Rheolaeth Gorfforaethol - 029 2068 2280.

Arolwg AU-RhBG

Eleni, am y tro cyntaf, mae'r arolwg AU-RhBG yn cynnwys data am sefydliadau unigol (sydd ar gael o www.hefce.ac.uk).

Astudiaethau achos

Mae astudiaethau achos ar gael drwy wneud cais.

Cronfa'r Drydedd Genhadaeth

Gweithgareddau trydedd genhedlaeth mewn SAUau yw'r rheiny sy'n annog cymhwyso ac ymelwa ar wybodaeth er budd datblygiad cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd Cymru. Mae Cronfa Trydedd Genhadaeth CCAUC yn cefnogi strategaethau tair blynedd sefydliadau addysg uwch yng Nghymru i ariannu eu gweithgareddau trydedd genhadaeth. Mae Cronfa'r Drydedd Genhadaeth yn cydnabod gwerth gwaith y sector wrth gefnogi lles cymdeithasol a diwylliannol yng Nghymru a'r tu hwnt, yn ogystal â'i gyfraniad at ddatblygiad economaidd. Mae'r Gronfa - a ddaeth i gyfanswm o £3.1m yn 2004 ond a fydd yn codi i £6.1m erbyn 2007/08 - yn helpu SAU i fabwysiadu ymagwedd strategol ar draws ystod gyfan o weithgareddau trydedd genhadaeth ac yn darparu modd i ddenu cyllid o ffynonellau eraill.

Cefndir – CCAUC

Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yw Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Fe'i sefydlwyd ym mis Mai 1992 a daeth yn gyfrifol am gyllido addysg uwch yng Nghymru ar 1 Ebrill 1993.

O dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, mae'r Cyngor yn gyfrifol am weinyddu'r cyllid a roir gan y Cynulliad i gynnal yr addysg a ddarperir a'r ymchwil a wneir gan sefydliadau addysg uwch a chyrsiau addysg uwch penodedig a ddarperir mewn sefydliadau addysg bellach.

O dan Ddeddf Addysg 1994, mae'r Cyngor yn gyfrifol am achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol ar gyfer athrawon ysgol ac am gomisiynu ymchwil i wella safonau athrawon a hyfforddiant athrawon.

Yn ogystal â'i gyfrifoldebau cyllido, mae'r Cyngor yn cynghori Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar anghenion ariannol, dyheadau a phryderon y sector addysg uwch yng Nghymru